**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (160)**
**Dydd Mercher, 12 Hydref 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

............................


**Eitem 1 -** Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Eitem 3** – Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, ar ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes

**Eitem 4 -** Datganiad Busnes drafft diwygiedig

**Eitem 5 -** Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion E.coli yn Ne Cymru

**Eitem 6 -** Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Iechyd Meddwl

**Eitem 7 -** Dadl ar y Dreth Gyngor yng Nghymru

**Eitem 8 -** Y Ddadl Fer - NDM2615 Jeff Cuthbert (Caerffili): Bagloriaeth Cymru: Dyfodol Cymwysterau


............................

### Eitem 1 - Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

............................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**............................**

**Eitem 3 – Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, ar ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes**

**............................**

**Eitem 4 - Datganiad Busnes drafft diwygiedig**

**............................**

**Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion E.coli yn Ne Cymru**

**............................**

**Eitem 6 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Iechyd Meddwl**

**............................**

## Eitem 7 - Dadl ar y Dreth Gyngor yng Nghymru

NDM2616 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu’r cymorth a roddir i lywodraeth leol Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfyngu ar y cynnydd yn lefelau’r dreth gyngor yng Nghymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

(1 + 3)
(2 + 7)
(4, 5 + 6)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru’ ac yn ei le rhoi:

‘Yn gresynu at y cymorth annigonol a roddir i Lywodraeth Leol yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi rhoi pwysau mawr ar lywodraeth leol i gynyddu’r dreth gyngor yn barhaus i lefelau anghynaliadwy;

Yn credu bod y system Treth Gyngor bresennol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Geidwadol ac y parhawyd â hi gan Lafur Newydd yn ffurf atchweliadol o drethu nad yw’n ystyried y gallu i dalu ac y dylid ei ddisodli gan dreth incwm leol.'

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl ‘Llywodraeth Cynulliad Cymru’ a rhoi’r canlynol yn ei le:

'Yn credu bod y dreth gyngor yn dreth atchweliadol, sy’n effeithio fwyaf ar y rhai na allant fforddio ei thalu, ac y dylid ei disodli gyda Threth Incwm Leol.’

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi gwneud tro pedol ar ailfandio’r Dreth Gyngor ar gyfer Lloegr.

**4. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi bod baich y Dreth Gyngor wedi cynyddu’n sylweddol dros y chwe blynedd diwethaf gan nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol digonol i gyfateb i’r gofynion ychwanegol sydd ar lywodraeth leol.’

**5. David Melding (South Wales Central)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi’r caledi difrifol y mae llawer o bensiynwyr ac eraill ar incwm isel yn ei wynebu o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu baich y Dreth Gyngor.’

**6. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn mynnu bod llywodraeth leol yn cael ei hariannu’n ddigonol er mwyn rhewi’r Dreth Gyngor neu leihau’r baich dros y tair blynedd nesaf.’

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn credu bod Llywodraeth y Cynulliad wedi llwyddo i wneud y dreth gyngor yn fwy amhoblogaidd oherwydd y ffordd y bu iddynt ymdrin â’r ailbrisio; yn nodi bod y Llywodraeth yn Lloegr wedi gweld yr ailbrisio’n cael ei gyflwyno yng Nghymru ac wedi penderfynu peidio â dilyn proses o’r fath yn Lloegr’

**..............................**

## Eitem 8 - Y Ddadl Fer - NDM2615 Jeff Cuthbert (Caerffili): Bagloriaeth Cymru: Dyfodol Cymwysterau

**............................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**..........................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 18 Hydref 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**